

Nodiadau Astudiaeth Feiblaidd: Bod yn Ddisgybl 1

Yr Alwad – Marc 1

Gweddi: O Dduw, wrth i ni droi at y Beibl, gofynnwn am dy arweiniad, a'th fendith arnom. Llefara wrthym drwy'r adnodau y byddwn yn eu darllen a'r geiriau y byddwn yn eu clywed. Gwna ni'n ymwybodol o'th bresenoldeb ac adeilada ni i fod yn bobl i Ti. Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist. Amen

Darllen: Marc pennod 1, adnodau 14-28, (tud. 1205-06 yn beibl.net).

Croesgyfeiriadau: 1 Samuel 3: 1-10, Mathew 10: 1-4, Marc 2: 13-14, Marc 3: 13, Ioan 15 14-17, I Ioan 4: 17-19

Cyflwyniad: Yn y Testament Newydd cawn hanes Iesu yn 'galw' disgyblion. Yr oedd yn dweud wrthynt, 'Dewch ar fy ôl i,' ac yr oeddent hwythau'n mynd. Mewn modd tebyg, mae Iesu yn galw pobl ym mhob oes i fod yn ddisgyblion iddo. Gall dull y galw amrywio, ond rhaid bod galwad.

Dywedodd Iesu yn Ioan 15 nad ei ddisgyblion oedd wedi ei ddewis ef, ond mai ef oedd wedi eu dewis hwy, ac mae geiriau I Ioan 4 yn ein harwain i gyfeiriad casgliad tebyg pan ddywedir wrthym ein bod 'ni'n caru [Iesu/Duw], am iddo ef yn gyntaf ein caru ni'.

Nid hap a damwain, felly, yw ein bod yn perthyn i deulu Duw, yn ddisgyblion i Iesu ac yn credu'r Efengyl. Yr ydym yr hyn ydym am fod Duw wedi ymyrryd yn ein bywydau. Ac mae'n ymddangos nad ein dewis ni oedd hyn, er ein bod yn aml yn hoffi meddwl mai felly yr oedd! Yn ôl yr hyn a welwn yn y Testament Newydd, mae'n ymddangos mai gweithgarwch Duw trwy Iesu Grist a thrwy'r Ysbryd Glân, ac nid ein mympwy ein hunain, sydd wedi ein gwneud yn ddisgyblion.

Cwestiynau:

1. Ym mha ffyrdd y mae pobl heddiw yn gallu cael eu 'galw' i fod yn ddisgyblion i Iesu Grist?
2. A all pobl ddod yn ddisgyblion i Iesu heb gael eu galw ganddo?
3. Os mai gweithgarwch Duw neu Iesu Grist sy'n ein gwneud yn ddisgyblion, pam ein bod mor aml yn ceisio rhoi'r argraff mai ein dewis ni ydyw?
4. I ba raddau y gellir ystyried galwad Duw, neu alwad Iesu Grist, yn un anorchfygol? A fedrwn ni ei gwrthod?

Gweddi: O Dad, wrth gloi ein hastudiaeth, rho i ni feddwl eto am y ffyrdd y bu i ti alw arnom yn y gorffennol, ac am y ffyrdd y bu i ninnau ymateb. Diolch i ti nad wyt yn gadael i ni dy anwybyddu, ond dy fod yn mynnu ein bod yn ymateb. Galw lawer eto yng Nghymru, a rho i wŷr a gwragedd, a bechgyn a merched ymhob rhan o'r wlad gael clywed dy lais. Gofynnwn hyn eto yn enw Iesu Grist. Amen.